

# Paratoi am ddyfodol gwahanol: adroddiad y sesiwn newid hinsawdd

## Y CYD-DESTUN

Drwy gydol Mai a Mehefin 2020 bu CGGC yn hwyluso rhaglen o fforymau trafod ar-lein i ennill dealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu'r sector gwirfoddol yng Nghymru o ganlyniad i COVID-19, y gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol a sut orau y gallwn baratoi ar eu cyfer; drwy weithio tuag at y canlyniadau y byddai'r sector yn dymuno eu gweld yn y dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar y [dysgu cychwynnol](#) a gyhoeddwyd gan CGGC ym mis Mai 2020.

Cynhaliwyd cyfres o chwe sesiwn, pob un yn canolbwyntio ar wahanol bwnc, ochr yn ochr â holiadur ehangach. Hyrwyddwyd y sesiynau hyn, oedd yn ddi-dâl, ymhlith holl aelodaeth CGGC.

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol:

- Pa effaith y mae Covid-19 wedi'i gael?
- Sut y gallai hyn arwain at newid hirdymor – cadarnhaol a negyddol?
- Beth yw'r goblygiadau i'r sector gwirfoddol yng Nghymru?
- Beth all mudiadau gwirfoddol, CGGC, y llywodraeth, neu wneuthurwyr penderfyniadau eraill, ei wneud i'n tywys tuag at ddyfodol gwell?

Paratowyd adroddiad cryno gan gwmni [Richard Newton Consulting](#) ynghyd ag adroddiad terfynol yn cyfuno'r holl themâu a'r camau gweithredu allweddol.

Bwriedir rhannu'r rhain yn eang ar draws y sector, a hefyd gydag eraill fel cyllidwyr a gwneuthurwyr polisi.

Diben yr adroddiadau hyn yw sefydlu themâu a gweithredu'n hytrach na chreu crynodeb o'r trafodaethau. Maen nhw'n adlewyrchu'r ymateb i'r arolwg a'r cyfraniadau yn y sesiynau'n hytrach na safiad CGGC neu Richard Newton Consulting. Ni allwn gadarnhau a ydyn nhw'n gwbl gywir neu'n ddim ond argraffiadau pobl.

Ar 11 Mehefin 2020 cynhaliwyd y pumed fforwm trafod i ystyried sut y mae argyfwng COVID-19 wedi effeithio ar newid hinsawdd.

Cofrestrodd dros 60 mudiad i fynychu'r sesiwn gan gynrychioli amrediad o fudiadau o'r sector di-wneud-elw. Roedden nhw'n cynnwys elusennau cofrestredig a chwmnïau buddiannau cymunedol ynghyd â mudiadau cymorth yn cynnwys CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol.

## **NEWID HINSAWDD – PA EFFAITH Y MAE COVID-19 WEDI'I GAEL?**

Nid yw'r ychydig fisoedd ers y bu'n rhaid i Gymru gau i lawr oherwydd haint y Coronafeirws ond yn ganran fach o'r cyfnod hirach o drafod newid hinsawdd. Fodd bynnag, o ganlyniad i orfod cau lawr, mae ymddygiad pobl wedi newid ar sawl ystyr gan roi cyfle i effeithio ar newid hinsawdd.

Yn ôl y cyfranogwyr:

- Mae'r cyfnod clo, yn enwedig y cyfyngiadau ar drafnidiaeth, wedi arwain at leihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Mae llawer o unigolion wedi ailgysylltu â'u cymunedau lleol. Mae hyn wedi cynnwys siopa'n lleol, cymryd rhan mewn cynlluniau tyfu yn y gymuned a chynlluniau cymunedol sy'n brocera anghenion lleol gyda chynigion lleol.
- Mae ymateb y gymuned wedi defnyddio'r Pum Ffordd o Weithio a ddisgrifir yn y ddeddfwriaeth ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; ac yn aml iawn heb i'r bobl a fu'n rhan o'r ymateb fod yn ymwybodol o hyn.

- Ar raddfa genedlaethol, mae problemau fel y prinder cyfarpar anadlu a PPE wedi tynnu sylw at rai o'r heriau a wynebir gan gadwyni cyflenwi lleol a 'mewn union bryd'.
- Wrth i ni ddechrau symud at godi'r cyfyngiadau, mae pryderon am y defnydd a wneir o geir – edrychir ar y car gan lawer fel 'lle diogel' erbyn hyn ac felly'n ddull trafndiaeth y bydd pobl yn ei ffafrio. Nid yw cynlluniau fel amseroedd gwahanol i ddechrau'r ysgol yn atal defnyddio ceir ychwaith.

## **NEWID HINSAWDD - SUT Y GALLAI HYN ARWAIN AT NEWID HIRDYMOR - CADARNHAOL A NEGYDDOL?**

Mae wedi'i adnabod bod cyfle clir iawn i gyflwyno newid hirdymor, gan ddibynnu ar sut y mae'r sector gwirfoddol a chymunedol (a sectorau eraill) yn ymateb i ddod allan o'r cyfnod clo. Er y pryderon bod peth o'r ffocws mwy taer gan wneuthurwyr polisi (a llawer o gyrff darparu) ar newid hinsawdd wedi'i ddisodli gan COVID-19; mae llawer yn cydnabod y dylid ystyried newid hinsawdd fel rhan o gynllun integredig i sicrhau adferiad economaidd ac iechyd ehangach.

I sicrhau'r newid hirdymor hwn, rhaid ystyried nifer o elfennau:

- Mae angen i randdeiliaid werthuso ai'r ymddygiad a esblygodd o'r cyfnod clo yw'r newid y mae pobl yn dyheu amdano. Mewn geiriau eraill, a yw'n fodel cynaliadwy neu'n fodel wedi'i orfodi?
- Mae angen datblygu'r seilwaith i gynorthwyo ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn amrywio o lwybrau beicio i ddatblygu rhwydweithiau.
- Mae tlodi bwyd yn ddylanwad pwysig ar benderfyniad pobl i gyfrannu neu beidio at yr agenda 'leoleiddio' ac mae angen rhoi sylw i hyn.
- Yn ogystal â'r ymyriadau 'traddodiadol' i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae angen ystyried y cyfleoedd ehangach a ddaeth drwy COVID-19, h.y. y potensial i droi gofod swyddfa gwag yn rhywle i ddarparu manteision iechyd a bioamrywiaeth, a chanolbwyntio ymyriadau ar gefnogi adferiad yr economi a mynd i'r afael â diweithdra fel rhan o'r agenda werdd.

## **NEWID HINSAWDD – BETH YW'R GOBLYGIADAU I'R SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU?**

Gall y sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru chwarae rôl allweddol mewn mynd i'r afael â newid hinsawdd. Fel y trafodwyd yn y bedwaredd sesiwn ar ddylanwadu, mae angen i wneuthurwyr polisi edrych ar y sector fel partner allweddol ar draws ystod o weithgareddau, gan gynnwys newid hinsawdd.

Newid hinsawdd yw un o'r anawsterau mwyaf cymhleth a heriol i wynebu'r blaned. Er y gall y sector gwirfoddol a chymunedol chwarae rôl bwysig mewn creu dyfodol gwahanol, os yw hyn i weithio'n iawn mae angen ei wreiddio mewn blaenoriaethau strategol ehangach. Mae teimlad clir bod y sylfeini yn eu lle'n lleol ar gyfer cael ymateb cymunedol i newid hinsawdd, ond nad yw hyn yn cael ei arwain gan bolisi ar lefel Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cyplysu â nifer o'r rhaglenni i ddatblygu'r Economi Sylfaenol.

O dderbyn y cyllid iawn a chreu amgylchedd polisi ehangach, gallai'r sector gwirfoddol chwarae rôl allweddol mewn mynd i'r afael â newid hinsawdd yng Nghymru, gan adeiladu ar yr ymateb i'r Coronafeirws a dysgu ehangach.

## **NEWID HINSAWDD – BETH ALL MUDIADAU GWIRFODDOL, CGGC, Y LLYWODRAETH, NEU WNEUTHURWYR PENDERFYNIADAU ERAILL, EI WNEUD I'N TYWYS TUAG AT DDYFODOL GWELL?**

Daeth nifer o gamau gweithredu allan o'r sesiwn y gallai CGGC ac aelodau eu hystyried a'u gweithredu gyda rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y sector yn y sefyllfa orau i ymateb i'r heriau a gyflwynir gan newid hinsawdd.

- ▶ Mae angen i CGGC a rhanddeiliaid eraill yn y sector gwirfoddol ymgyrchu i sicrhau bod newid hinsawdd yn cael ei wreiddio yn y cynlluniau i ymateb i COVID-19 yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys grŵp cyngor adferiad allanol Llywodraeth Cymru wedi'i arwain gan y Cwnsler Cyffredinol ynghyd â grwpiau adferiad sector-benodol.
- ▶ Mae gan ymateb y gymuned botensial i fod yn allweddol wrth gyflwyno newid yn achos newid hinsawdd. Mae angen i waith gael ei wneud i ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol newydd ar newid hinsawdd a chynnal yr ymateb cymunedol.

- ▶ Gallai'r rhwydwaith TSSW chwarae rôl hanfodol mewn cysylltu ymateb y gymuned ar y ddaear i bolisi cenedlaethol, a hwyluso trosglwyddo gwybodaeth.
- ▶ Er bod ffocws rhai mudiadau gwirfoddol ar newid hinsawdd, mae ffocws mudiadau eraill yn wahanol. Mae angen cynnal ymarfer 'calonnau a meddyliau' i ennill dealltwriaeth ar draws y sector o sut y gallai mudiadau effeithio ar newid hinsawdd ond parhau i ddarparu eu prif bwrpas ar yr un pryd. Mae mudiadau gwirfoddol yn cael eu hannog i werthuso eu hymateb i COVID-19 a dylai eu dysgu, o ran newid hinsawdd, fod yn thema drawsbynciol yn y gwaith hwn.
- ▶ Mae angen creu'r 'gofod' iawn i fudiadau gael rhannu profiadau a rhannu'r arferion gorau sydd wedi / yn dod allan o'r pandemig a'r amgylchedd newydd sy'n cael ei greu yn ei sgîl.

**0300 111 0124**

**[wcva.cymru](http://wcva.cymru)**

Cyhoeddwyd Mehefin 2020

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Elusen gofrestrdig rhif 218093

Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299

Cofrestrwyd yng Nghymru